



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 Rhif 481 (Cy.67)

2003 No. 481 (W.67)

ANIFEILIAID, CYMRU

ANIMALS, WALES

IECHYD ANIFEILIAID

ANIMAL HEALTH

**Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003**

**The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2003**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu ac yn cymryd lle Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002.

This Order revokes and replaces the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002.

Nid yw'n gymwys yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 3 (anifeiliaid a grynhoir ar safle y mae eu perchennog yn berchen arno).

It does not apply in the circumstances set out in article 3 (animals gathered on their owner's premises).

Rhaid wrth drwydded ar gyfer crynoddau anifeiliaid (erthygl 4).

It requires a licence for animal gatherings (article 4).

Mae'n pennu na chaiff crynhoad anifeiliaid ddigwydd ond ar ôl i 27 o ddiwrnodau fynd heibio ar ôl i'r olaf o'r anifeiliaid adael y safle hwnnw ac i'r cyfarpar ar y safle gael ei lanhau fel nad oes arno arwyddion gweledol ei fod wedi ei halogi (erthygl 5). Os ar safle wedi'i balmantu y crynhoir yr anifeiliaid mae erthygl 6 yn gwneud darpariaeth ar gyfer glanhau a diheintio'r safle hwnnw ac yn ei gwneud yn bosibl i grynhoad ddigwydd o fewn y terfyn amser arferol.

It specifies that an animal gathering can only take place 27 days after the last animal left those premises and equipment on the premises has been cleansed of visible contamination (article 5). If the gathering takes place in paved premises article 6 makes provision for the cleansing and disinfection of those premises and enables a gathering to take place inside the normal time limit.

Mae'n gosod dyletswyddau ar y personau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid (erthygl 7 a'r Atodlen).

It imposes duties on persons attending an animal gathering (article 7 and the Schedule).

Mae'n gosod cyfyngiadau yn sgil crynhoad anifeiliaid (erthygl 8).

It imposes restrictions following an animals gathering (article 8).

Mae'n datgymhwyso dros dro ac yn cymryd lle Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925 (OS 1925/1349) (erthygl 9).

It temporarily disapplies and replaces the Markets, Sales and Lairs Order 1925 (S.I. 1925/1349) (article 9).

Fe'i gorfodir gan yr awdurdod lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol (erthygl 10).

Mae peidio ag ufuddhau i'r Gorchymyn yn dramgwydd o dan adran 73 o'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid, ac mae'r gosb am hynny yn unol ag adran 75 o'r Ddeddf honno.

Bydd effaith y Gorchymyn hwn yr dod i ben ar 1 Awst 2003.

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.

It is enforced by the local authority or the Secretary of State (article 10).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act, punishable in accordance with section 75 of that Act.

This Order will cease to have effect on 1st August 2003.

A regulatory appraisal has not been prepared for this Order.

2003 Rhif 481 (Cy.67)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

**Gorchymyn Crynoddau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003**

Wedi'i wneud 3 Mawrth 2003

Yn dod i rym 4 Mawrth 2003

TREFN YR ERTHYGLAU

1. Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben
2. Dehongli
3. Eithriadau
4. Defnyddio safle ar gyfer crynoddau anifeiliaid
5. Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gynhoi anifeiliaid mewn un lle
6. Esemptiad i'r cyfnod cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gyfer safle ag ardal i anifeiliaid sydd wedi'i phalmantu
7. Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoed anifeiliaid
8. Cyfyngiadau yn sgil crynhoed anifeiliaid
9. Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925
10. Gorfodi
11. Dirymu

ATODLEN

**GOFYNIION MEWN PERTHYNAS Â
CHRYNHOED ANIFEILIAID**

2003 No. 481 (W.67)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

**The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2003**

Made 3rd March 2003

Coming into force 4th March 2003

ARRANGEMENT OF ARTICLES

1. Title, application, commencement and cessation
2. Interpretation
3. Exceptions
- 4 The use of premises for animal gatherings
5. 27 day restriction on when an animal gathering can take place
6. Exemption from the 27 day restricted period for premises with a paved animal area
7. Duties on persons at an animal gathering
8. Restrictions following an animal gathering
9. The Markets, Sales and Lairs Order 1925
10. Enforcement
11. Revocations

SCHEDULE

**REQUIREMENTS AT AN ANIMAL
GATHERING**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd wrth arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 ac 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(a), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cymhwyso, cychwyn a dod i ben

1. Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003; mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru, yn dod i rym ar 4 Mawrth 2003 a bydd ei effaith yn dod i ben ar 1 Awst 2003.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn-

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ond heb gynnwys buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

mae i "ardal i anifeiliaid" ("*animal area*") yr ystyr a roddir iddo yn erthygl 4(3)(c);

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi mewn un lle sef-

- (a) gwerthiant,
- (b) sioe neu arddangosfa,
- (c) llwyth o anifeiliaid i'w traddodi ymlaen i'w cigyddu o fewn Prydain Fawr, neu
- (ch) llwyth o anifeiliaid i'w traddodi ymlaen o fewn Prydain Fawr i'w pesgi neu i'w gorffen,

ac mae'n cynnwys derbyn neu gadw'r anifeiliaid hynny dros dro;

mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys llociau a chlwydi; ac

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978 (b) sydd o'r cryfder sy'n ofynnol o dan y Gorchymyn hwnnw ar gyfer "Gorchymynion Cyffredinol".

The National Assembly for Wales and the Secretary of State, acting jointly in exercise of the powers conferred on them by sections 1, 7, 8 and 83 of the Animal Health Act 1981(a), make the following Order:

Title, application, commencement and cessation

1. This Order may be cited as the Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2003; it applies in relation to Wales, comes into force on 4th March 2003 and ceases to have effect on 1st August 2003.

Interpretation

2. In this Order -

"animals" ("*anifeiliaid*") means cattle (excluding bison and yak), deer, goats, sheep and pigs;

"animal area" ("*ardal i anifeiliaid*") has the meaning given in article 4(3)(c);

"animal gathering" ("*crynhoad anifeiliaid*") means an occasion at which animals are brought together for -

- (a) a sale,
- (b) a show or exhibition,
- (c) onward consignment for slaughter within Great Britain, or
- (d) onward consignment within Great Britain for further rearing or finishing,

and includes the reception or temporary detention of those animals;

"approved disinfectant" ("*diheintydd a gymeradwywyd*") means a disinfectant approved under the Diseases of Animals (Approved Disinfectants) Order 1978(b) at the concentration required under that Order for "General Orders"; and

"equipment" ("*cyfarpar*") includes pens and hurdles.

(a) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (fel y'u diffinnir yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau yr oeddent yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn perthynas â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Cafodd pob un o swyddogaethau'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd eu trosglwyddo ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(b) O.S. 1978/32 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1999/919 ac, mewn perthynas â Chymru O.S. 2001/641 (Cy.31).

(a) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act on "the Ministers" (as defined in section 86 of that Act) were transferred so far as exercisable by the Secretary of State for Wales in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I.1999/672). The joint functions of "the Ministers" exercisable by the Secretary of State for Scotland in relation to Wales were transferred to the Minister of Agriculture, Fisheries and Food by the Transfer of Functions (Agriculture and Food) Order 1999 (S.I. 1999/3141). All functions of the Minister of Agriculture, Fisheries and Food were then further transferred to the Secretary of State by the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food (Dissolution) Order 2002 (S.I. 2002/794).

(b) S.I. 1978/32 as amended by S.I. 1999/919 and as regards Wales, S.I. 2001/641 (W.31).

Eithriadau

3. Nid yw darpariaethau'r Gorchymyn hwn yn gymwys os-

- (a) yr un person sy'n berchen ar yr holl anifeiliaid mewn crynhoad anifeiliaid ac os yr un ceidwad sydd ganddynt, a
- (b) bod yr anifeiliaid i'w crynhoi ar safle y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arno neu y mae'n ei feddiannu.

Defnyddio safle ar gyfer crynodaau anifeiliaid

4.-(1) Mae gwaharddiad ar ddefnyddio safle gan unrhyw berson ar gyfer crynhoi anifeiliaid arno onid yw'r safle hwnnw wedi'i drwyddedu at y diben hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i drwydded o dan yr erthygl hon-

- (a) bod yn ysgrifenedig,
- (b) bod yn un y gellir ei diwygio, ei hatal dros dro, neu ei dirymu drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan arolygydd milfeddygol, a
- (c) bod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau ag y barna'r arolygydd milfeddygol fod eu hangen i atal cyflwyno clefyd i'r safle trwyddedig neu i atal lledaenu clefyd o fewn y safle trwyddedig neu'r tu allan iddo.

(3) Rhaid i drwydded bennu-

- (a) enw'r trwyddedai,
- (b) y safle lle y caniateir crynhoi anifeiliaid, ac
- (c) yr ardal y caniateir i'r anifeiliaid fynd arni ("yr ardal i anifeiliaid").

Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar grynhoi anifeiliaid mewn un lle

5. Mae gwaharddiad ar bob crynhoad anifeiliaid ar safle lle y cafodd anifeiliaid eu cadw a hynny hyd nes bydd 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers y diwrnod-

- (a) y gadawodd yr anifail olaf y safle hwnnw, a
- (b) ar ôl i'r anifail olaf adael y safle, pan fydd yr holl gyfarpar a ddefnyddiwyd gan yr anifeiliaid wedi ei lanhau fel nad oes unrhyw arwydd weledol ei fod wedi'i halogi.

Esemptiad i'r cyfnod cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gyfer safle ag ardal i anifeiliaid sydd wedi'i phalmantu

6.-(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthygl 5 yn gymwys os-

- (a) oes ar y safle ardal i anifeiliaid ac iddi arwyneb o sement, concriid, asffalt neu ddeunydd caled

Exceptions

3. The provisions of this Order do not apply if -

- (a) all the animals attending an animal gathering are owned by the same person and have the same keeper, and
- (b) the animal gathering is to take place on premises owned or occupied by the owner of the animals.

The use of premises for animal gatherings

4.-(1) The use by any person of premises for an animal gathering is prohibited unless those premises are licensed for that purpose by a veterinary inspector.

(2) A licence under this article -

- (a) must be in writing,
- (b) may be amended, suspended or revoked by a notice in writing issued by a veterinary inspector, and
- (c) may be subject to such conditions as the veterinary inspector considers necessary to control the introduction into or spread of disease within or from the licensed premises.

(3) A licence must specify -

- (a) the name of the licensee,
- (b) the premises in which the animal gathering may take place, and
- (c) the area to which animals may be given access ("the animal area").

27 day restriction on when an animal gathering can take place

5. All animal gatherings on premises on which animals have been kept are prohibited until 27 days have passed from the day on which -

- (a) the last animal left those premises, and
- (b) after the last animal has left the premises, all equipment to which animals have had access has been cleansed of visible contamination.

Exemption from the 27 day restricted period for premises with a paved animal area

6.-(1) The restriction in article 5 does not apply if -

- (a) the premises have an animal area paved with cement, concrete, asphalt or other hard,

anhydrin arall y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol, a

- (b) os yw'r ardal i anifeiliaid wedi'i glanhau a'i diheintio, a bod unrhyw ddeunydd gwastraff ar yr ardal i'r anifeiliaid wedi cael ei symud a'i waredu, yn unol â'r erthygl hon.

(2) O ran y gwaith glanhau a diheintio-

- (a) rhaid peidio â chychwyn arno hyd nes bydd yr holl anifeiliaid wedi'u symud o'r rhan o'r ardal i anifeiliaid a lanheir ac a ddiheintir, a
- (b) rhaid ei orffen ar ôl i'r anifail olaf adael y safle trwyddedig.

(3) Rhaid gwaredu o'r ardal i anifeiliaid yr holl borthiant y daeth yr anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef, pob sarn (llaesodr), yr holl garthion, pob deunydd arall sy'n tarddu o anifeiliaid a'r holl halogion eraill -

- (a) a'u distrywio,
- (b) eu trin fel nad oes perygl o drosglwyddo clefyd, neu
- (c) eu gwaredu fel nad yw anifeiliaid yn gallu mynd atynt.

(4) Mae'n rhaid ysgubo neu grafu'n lân bob rhan o'r ardal i anifeiliaid (yn cynnwys unrhyw gyfarpar), a'i glanhau drwy olchi a'i diheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

(5) Yn dilyn y tro olaf y cafodd yr ardal i anifeiliaid ei glanhau a'i diheintio yn unol â'r erthygl hon, os bydd yn cael ei baeddu â charthion anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n deillio o anifeiliaid, yna mae'n rhaid glanhau a diheintio'r ardal i anifeiliaid neu'r rhannau hynny ohoni sydd wedi'u baeddu yn y modd hwn, a rhaid gwaredu unrhyw ddeunydd gwastraff, yn unol â'r erthygl hon, cyn crynhoi anifeiliaid yno.

Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoed anifeiliaid

7. Pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi mewn un lle (ac eithrio at ddiben sioe neu arddangosfa) mae darpariaethau'r Atodlen (gofynion mewn cysylltiad â chrynhoed anifeiliaid) yn effeithiol.

Cyfyngiadau yn sgil crynhoed anifeiliaid

8.-(1) Mae darpariaethau'r erthygl hon yn gymwys unwaith y bydd yr anifail olaf mewn crynhoed anifeiliaid wedi gadael y safle trwyddedig.

(2) Ni chaiff unrhyw berson ganiatáu i anifeiliaid fynd ar y safle trwyddedig hyd nes bydd pob cyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef wedi'i lanhau fel nad oes arno arwyddion gweledol ei fod wedi ei halogi.

(3) Ni chaiff unrhyw berson symud o'r safle trwyddedig unrhyw gyfarpar y daeth anifeiliaid mewn

impermeable material that is capable of being effectively cleansed and disinfected, and

- (b) the animal area has been cleansed and disinfected, and any waste on the animal area has been removed and disposed of, in accordance with this article.

(2) The cleansing and disinfection -

- (a) must not begin until all animals have been removed from the part of the animal area being cleansed and disinfected, and
- (b) must be completed after the last animal has left the licensed premises.

(3) All feedingstuffs to which animals have had access, and all bedding, excreta, other material of animal origin and other contaminants must be removed from the animal area and -

- (a) destroyed,
- (b) treated so as to remove the risk of transmission of disease, or
- (c) disposed of so that animals do not have access to it.

(4) All parts of the animal area (including any equipment) must be swept or scraped clean, cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

(5) If, following the last occasion on which the animal area was cleansed and disinfected in accordance with this article, it becomes contaminated with animal excreta or other material of animal origin or any contaminant derived from animals, then the animal area or those parts of it that have become so contaminated must be cleansed and disinfected, and any waste must be disposed of, in accordance with this article before an animal gathering is held.

Duties on persons at an animal gathering

7. When an animal gathering (other than for a show or exhibition) is taking place the provisions of the Schedule (requirements at an animal gathering) have effect.

Restrictions following an animal gathering

8.-(1) The provisions of this article apply once the last animal at an animal gathering has left the licensed premises.

(2) No person may allow animals on to the licensed premises until all equipment to which animals at the gathering had access has been cleansed of visible contamination.

(3) No person may remove from the licensed premises any equipment to which animals at the

crynhoad anifeiliaid i gyffyrddiad ag ef-

- (a) oni chaiff y cyfarpar ei lanhau fel nad oes arno arwyddion gweledol ei fod wedi ei halogi a bod cyfnod o 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers i'r anifail olaf mewn crynhoad anifeiliaid adael y safle trwyddedig, neu
- (b) oni chafodd y cyfarpar ei ysgubo a'i grafu'n lân, ei lanhau drwy olchi a'i ddiheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925

9. Nid yw Gorchymyn Marchnadoedd, Gwerthiannau a Llociau 1925 (a) yn gymwys tra bod y Gorchymyn hwn mewn grym.

Gorfodi

10. Caiff y Gorchymyn hwn ei orfodi gan yr awdurdod lleol neu'r Ysgrifennydd Gwladol.

Dirymu

11. Dirymir y canlynol-

- (a) Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(b);
- (b) Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2002(c);
- (c) Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2002(ch);
- (ch) Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Diwygio) 2003(d).

gathering had access unless -

- (a) the equipment has been cleansed of visible contamination and a period of 27 days has elapsed since the last animal at the animal gathering has left the licensed premises, or
- (b) the equipment has been swept or scraped clean, cleansed by washing and disinfected with an approved disinfectant.

The Markets, Sales and Lairs Order 1925

9. The Markets, Sales and Lairs Order 1925(a) does not apply while this Order is in force.

Enforcement

10. This Order may be enforced by the local authority or the Secretary of State.

Revocations

11. The following are revoked -

- (a) The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) Order 2002(b);
- (b) The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2002(c);
- (c) The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) (No. 2) Order 2002(d);
- (d) The Animal Gatherings (Interim Measures) (Wales) (Amendment) Order 2003(e).

(a) O.S.1925/1349 fel y'i diwygiwyd gan O.S.1926/546; O.S.1927/982 ac O.S. 1996/3265.

(b) O.S.2002/283 (Cy.34).

(c) O.S. 2002/1358 (Cy.134).

(ch) O.S.2002/2060 (Cy.209).

(d) O.S. 2003/169 (Cy.29).

(a) S.I. 1925/1349 as amended by S.I. 1926/546; S.I. 1927/982 and S.I. 1996/3265.

(b) S.I. 2002/283 (W.34).

(c) S.I. 2002/1358 (W.134).

(d) S.I. 2002/2060 (W.209).

(e) S.I 2003/169 (W.29).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Signed on behalf of the National Assembly for Wales

3 Mawrth 2003

3rd March 2003

D.Elis-Thomas

Y Llywydd

The Presiding Officer

3 Mawrth 2003

3rd March 2003

Whitty

Is-ysgrifennydd Seneddol

Parliamentary Under Secretary

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig

Department for Environment, Food and Rural
Affairs

**GOFYNIION MEWN PERTHYNAS Â
CHRYNHOAD ANIFEILIAID**

**REQUIREMENTS AT AN ANIMAL
GATHERING**

Dyletswyddau trwyddedai

1.-(1) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod unrhyw berson sy'n mynd ar y safle trwyddedig yn cael gwybod bod y safle'n drwyddedig o dan y Gorchymyn hwn, pa un ai trwy gyfrwng system o hysbysiadau y gwneir hynny neu mewn rhyw ffordd arall.

(2) Rhaid i'r trwyddedai ddarparu baddonau traed ac ynddynt ddiheintydd wedi'i gymeradwyo ar y ffordd allan o'r ardal i anifeiliaid ac mewn unrhyw fae llwytho a dadlwytho, a darparu cyfleusterau ar y safle ar gyfer newid, golchi a diheintio dillad a gwaredu dillad y gellir eu taflu.

(3) Mae'n rhaid i'r trwyddedai-

- (a) sicrhau mai yn yr ardal i anifeiliaid y caiff yr anifeiliaid eu dadlwytho a'u hail-lwytho, a
- (b) sicrhau, i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol, nad yw anifeiliaid yn gadael yr ardal i anifeiliaid ac eithrio ar gerbyd.

Y dyletswyddau sydd ar bersonau sy'n bresennol mewn crynhoad anifeiliaid

2.-(1) Ni chaiff unrhyw berson fynd ar safle trwyddedig yn gwisgo dillad allanol y mae arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi'u halogi â charthion anifail neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid.

(2) Os bydd person yn yr ardal i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi gan garthion anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, rhaid iddo ar ei union ar ôl gadael yr ardal i anifeiliaid, lanhau halogi garw oddi ar ei ddillad (onid yw'r dillad i gael eu taflu) a naill ai-

- (a) eu diheintio; neu
- (b) newid ei ddillad am ddillad glân; neu
- (c) eu taflu; neu
- (ch) ymadael â'r safle trwyddedig.

(3) Os bydd person y tu allan i'r ardal i anifeiliaid yn gwisgo dillad allanol ac arnynt arwyddion gweledol eu bod wedi eu halogi gan garthion anifeiliaid neu halogion eraill sy'n deillio o anifeiliaid, caiff arolygydd gyflwyno iddo hysbysiad yn rhoi iddo'r dewis o-

- (a) glanhau ei ddillad allanol,
- (b) newid ei ddillad am ddillad glân,

Duties on a licensee

1.-(1) The licensee must ensure that any person entering the licensed premises is made aware that the premises are licensed under this Order, whether by means of a system of notices or otherwise.

(2) The licensee must provide footbaths containing an approved disinfectant at exits from the animal area and at any loading and unloading bay, and facilities on the licensed premises for changing, cleaning and disinfecting clothes and disposing of disposable clothes.

(3) The licensee must -

- (a) ensure that animals are unloaded and re-loaded in the animal area, and
- (b) ensure, so far as is reasonably practicable, that animals do not leave the animal area except on a vehicle.

Duties on persons attending the animal gathering

2.-(1) No person may enter licensed premises wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination.

(2) If a person in the animal area is wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination, on leaving the animal area he or she must immediately clean his or her clothing of gross contamination (unless the clothing is to be disposed of) and either -

- (a) disinfect it;
- (b) change into clean clothing;
- (c) dispose of it; or
- (d) leave the licensed premises.

(3) If a person outside the animal area is wearing outer clothing visibly contaminated with animal excreta or other animal contamination, an inspector may serve on him or her a notice giving him or her the option of immediately -

- (a) cleaning his outer clothing,
- (b) changing into clean clothing,

- (c) gwaredu dillad y gellir eu taflu, neu
- (ch)ymadael â'r safle trwyddedig a hynny ar ei union.

Esgidiau i'w gwisgo yn yr ardal i anifeiliaid

3. Rhaid i unrhyw berson sy'n ymadael â'r ardal i anifeiliaid lanhau a diheintio ei esgidiau yn y baddon traed sydd wedi'i ddarparu.

Cerbydau

4. Ni chaiff unrhyw berson ddod ag unrhyw gerbyd nac offer ar y safle trwyddedig na mynd â hwy oddi yno os ydynt wedi'u halogi â charthion anifeiliaid, ac eithrio carthion yr anifeiliaid sydd ar y cerbyd ar y pryd.

- (c) disposing of disposable clothing, or
- (d) leaving the licensed premises.

Footwear in the animal area

3. Any person leaving the animal area must cleanse and disinfect their footwear in the footbath provided.

Vehicles

4. No person may bring on to or take from the licensed premises any vehicle or equipment that is contaminated with animal excreta, other than excreta from animals on the vehicle at the time.

OFFERYNNAU STATUDOL

2003 Rhif 481 (Cy.67)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Crynadau Anifeiliaid
(Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2003

STATUTORY INSTRUMENTS

2003 No. 481 (W.67)

ANIMALS, WALES

ANIMAL HEALTH

The Animal Gatherings (Interim
Measures) (Wales) Order 2003

© Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£2.50

W39/03/03

ON

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090685-3



9 780110 906850